
OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2013 Rhif. 1723 (Cy. 167)

CATREFI SYMUDOL, CYMRU

Gorchymyn Deddf Cartrefi Symudol 1983 (Diwygio Atodlen 1 a Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2013

Gwnaed - - - - 10 Gorffennaf 2013

Yn dod i rym - - 10 Gorffennaf 2013

Mae'r Gorchymyn hwn wedi ei wneud gan Weinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 2A o Ddeddf Cartrefi Symudol 1983(1) ac adran 229(3) a (4) a 250(2) o Ddeddf Tai 2004(2) ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy.

Yn unol ag adran 2A(5) o Ddeddf Cartrefi Symudol 1983, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r cyrff hynny sydd, yn eu tyb hwy, yn cynrychioli'r buddiannau yr effeithir yn sylweddol arnynt gan y Gorchymyn ac â phersonau eraill a oedd, yn eu tyb hwy, yn briodol.

Yn unol ag adran 2A(6) o Ddeddf Cartrefi Symudol 1983 ac adran 250(6) o Ddeddf Tai 2004 cafodd drafft o'r Gorchymyn hwn ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad((3)).

Yn unol â pharagraff 24 o Atodlen 7 i Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007(4) mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Cartrefi Symudol 1983 (Diwygio Atodlen 1 a Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2013 a daw i rym ar 10 Gorffennaf 2013 ("y dyddiad cychwyn").

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

-
- (1) 1983 p.34. Mewnsoodwyd adran 2A gan adran 208(1) o Ddeddf Tai 2004 (p.34). Mae pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 2A yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30(1) a (2)(c) o Atodlen 11 iddi.
- (2) 2004 p. 34. Mae pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adrannau 229 a 250 yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30(1) a (2)(c) o Atodlen 11 iddi. *Gweler* y diffiniad o "appropriate national authority" yn adran 261(1) o Ddeddf 2004.
- (3) Mae swyddogaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru o wneud Gorchymyn o dan adran 2A o Ddeddf Cartrefi Symudol 1983 a Gorchymyn o dan adran 229(3) o Ddeddf Tai 2004 yn sylweddol yr un fath â swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adrannau hynny. Yn rhinwedd paragraff 34(2) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae adran 2A(6) o Ddeddf 1983 ac adran 250(6) o Ddeddf 2004 yn gymwys i arfer, gan Weinidogion Cymru, eu swyddogaeth o wneud gorchymyn o dan adran 2A o Ddeddf 1983 ac adran 229(3) o Ddeddf 2004 fel pe bai unrhyw gyfeiriad at y naill neu'r llall o ddau Dŷ'r Senedd yn gyfeiriad at Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
- (4) 2007 p.15.

(3) Mae'r diwygiadau a wneir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys mewn perthynas â'r cytundebau a wneir ar y dyddiad cychwyn neu ar ôl y dyddiad hwnnw.

Diwygiadau i Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf Cartrefi Symudol 1983

2.—(1) Mae Rhan 1 o Atodlen 1 i Ddeddf Cartrefi Symudol 1983 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym Mhennod 1—

- (a) ym mharagraff 1(1) hegorer y geiriau “in England” yn yr ail fan y maent yn digwydd; a
- (b) ym mharagraffau 1(2) a (3) ar ôl “England” mewnosoder “and Wales”.

(3) Ym Mhennod 2—

- (a) yn y pennawd hegorer y geiriau “in England” yn yr ail fan y maent yn digwydd;
- (b) ym mharagraff 29 (dehongli)—
 - (i) yn lle “this Schedule” rhodder “this Chapter”; a
 - (ii) hegorer y diffiniad o “pitch”.

(4) Ym mhennawd Pennod 3 ar ôl “England” mewnosoder “and Wales”.

(5) Ym Mhennod 4—

- (a) yn y pennawd, ar ôl “England” mewnosoder “and Wales”;
- (b) ar ôl paragraff 6 (terfynu gan y perchennog) mewnosoder—

“Assignment of agreement in Wales

6A.—(1) This paragraph and paragraph 6B apply to an agreement that relates to a pitch in Wales.

(2) The occupier (“A”) may assign the agreement—

- (a) to a person who is a member of A’s family, or
- (b) to another person (“B”) if the conditions in sub-paragraph (3) are met.

(3) The conditions are—

- (a) A must have the approval of the owner; and
- (b) B must—
 - (i) be an occupier of a permanent pitch on a relevant site, and
 - (ii) have the approval of the owner to the assignment of B’s agreement to A or to another occupier of a permanent pitch on a relevant site.

(4) A relevant site for the purposes of sub-paragraph (3) is a local authority gypsy and traveller site in the area of the local authority where the site on which the pitch to which A’s agreement relates is located.

(5) Neither the occupier nor the owner may require any payment to be made (whether to the occupier or owner or otherwise) in connection with the assignment of the agreement under this paragraph.

Application in relation to assignment in Wales

6B.—(1) The occupier may serve on the owner a request to approve, for the purposes of paragraph 6A, an assignment to a person named in the request (“the proposed occupier”).

(2) Where the request relates to an assignment under paragraph 6A(2)(a) the request must include satisfactory evidence that the proposed occupier is a member of the occupier’s family.

- (3) Where the owner receives a request under sub-paragraph (1), the owner must, within 28 days beginning with the date on which the request is received—
- (a) approve the assignment, unless it is reasonable for the owner not to do so, and
 - (b) serve on the occupier notice of the owner's decision ("a decision notice").
- (4) If the approval is withheld, the decision notice must specify the reasons for withholding it.
- (5) Where a fee lawfully due from the occupier has not been paid or any term of the agreement has been broken or not performed, the approval required for the purpose of paragraph 6A may be given subject to a condition requiring the occupier to pay the outstanding fee, remedy the breach or perform the obligation.
- (6) Except as provided by sub-paragraph (5), the approval required for the purpose of paragraph 6A cannot be given subject to a condition and a condition imposed otherwise than as so provided is to be disregarded.
- (7) If the owner fails to serve the notice or withholds approval to the assignment the occupier may apply to the tribunal for an order declaring that the assignment is approved for the purposes of paragraph 6A and the tribunal may make such an order if it thinks fit.
- (8) If the question arises as to whether the notice required by sub-paragraph (3)(b) was served within the required period of 28 days, it is for an owner to show that the notice was so served.
- (9) If the owner did not approve the assignment and the question arises whether it was reasonable for the owner not to do so, it is for the owner to show that it was reasonable.
- (10) A request or notice under this paragraph—
- (a) must be in writing, and
 - (b) may be served by post.
- (11) Subject to sub-paragraph (12), an application to the tribunal under sub-paragraph (7) by an occupier must be made—
- (a) within the period of three months beginning with the day after the date on which the occupier receives the decision notice, or
 - (b) where the occupier receives no decision notice, within the period of three months beginning with the date which is 29 days after the date upon which the occupier served the request under sub-paragraph (1).
- (12) A tribunal may permit an application under sub-paragraph (7) to be made to the tribunal after the applicable period specified in sub-paragraph (11) if it is satisfied that, in all the circumstances, there are good reasons for the failure to apply before the end of that period and for any delay since then in applying for permission to make the application out of time.”;
- (c) ar ôl paragraff 8(1) (ail-leoli cartref symudol) mewnosoder—
- “(1A) In the case of a protected site in Wales, a pitch forming part of another protected site is, for the purposes of sub-paragraph (1)(a), broadly comparable to the occupier's original pitch only if it provides access to health and education services required by the occupier which is, as far as reasonably practicable, broadly comparable to the access provided by the occupier's original pitch.”;
- (d) ym mharagraff 16(2) (ffi llain newydd) mewnosoder ar y dechrau “In the case of a protected site in England,”;
- (e) ar ôl paragraff 16(2) mewnosoder—

“(2A) In the case of a protected site in Wales, when calculating what constitutes a majority of the occupiers for the purposes of sub-paragraph (1)(a)(iii) each pitch is to be taken to have only one occupier and, in the event of there being more than one occupier of a pitch, its occupier is to be taken to be whichever of them the occupiers agree or, in default of agreement, the one whose name first appears on the agreement.”;

(f) ym mharagraff 18(1) mewnosoder ar y dechrau “In the case of a protected site in England,”;

(g) ar ôl paragraff (18)(1) mewnosoder—

“(1A) In the case of a protected site in Wales, unless it would be unreasonable having regard to paragraph 16(1), there is a presumption that the pitch fee will increase or decrease by a percentage which is no more than any percentage increase or decrease in the consumer prices index calculated by reference only to—

(a) the latest index, and

(b) the index published for the month which was 12 months before that to which the latest index relates.

(1B) In sub-paragraph (1A) the “latest index” means—

(a) in the case where the owner serves a notice under paragraph 15(2), the latest index published before the day on which that notice is served, and

(b) in the case where the owner serves a notice under paragraph 15(6)(b), the latest index published before the day by which the owner was required to serve a notice under paragraph 15(2).”

(h) ym mharagraff 26(2) (cymdeithas preswylwyr gymwys), mewnosoder ar y dechrau “In the case of a protected site in England,”;

(i) ar ôl paragraff 26(2) mewnosoder—

“(2A) In the case of a protected site in Wales, when calculating the percentage of occupiers for the purpose of sub-paragraph (1)(b) each pitch is to be taken to have only one occupier and, in the event of there being more than one occupier of a pitch, its occupier is to be taken to be whichever of them the occupiers agree or, in default of agreement, the one whose name first appears on the agreement.”;

(j) ym mharagraff 27—

(i) cyn y diffiniad o “pitch fee” mewnosoder—

““consumer prices index” means the general index of consumer prices (for all items) published by the Statistics Board or, if that index is not published for a relevant month, any substituted index or index figures published by the Board;”.

Tribiwnlysoedd eiddo preswyl

3. Mae adran 4 o Ddeddf Cartrefi Symudol 1983 (awdurdodaeth tribiwnlys neu lys) yn cael effaith fel pe bai cyfeiriadau yn yr adran honno at Ddeddf Cartrefi Symudol 1983 yn gyfeiriadau at y Ddeddf honno fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Tai ac Adfywio 2008(5) a'r Gorchymyn hwn.

Diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Cartrefi Symudol 1983

4.—(1) Mae Deddf Cartrefi Symudol 1983 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(5) Mae adran 318 o ddeddf Tai ac Adfywio 2008 yn diwygio adran 5(1) o Ddeddf 1983 i ddiddymu eithrio “land occupied y a caravan site providing accommodation for gipsies” o ystyr “protected site” at ddibenion Deddf 1983.

- (2) Yn adran 2 (telerau cytundebau)—
- (a) yn is-adran (1) ar ôl “implied the” mewnosoder “applicable”; a
 - (b) yn is-adran (5) ar ôl “paragraphs 8 and 9” mewnosoder “of Chapter 2”.
- (3) Yn adran 3 (olynwyr yn y teitl)—
- (a) yn is-adran (4) ar ddechrau paragraff (b) mewnosoder “in relation to a protected site in England,”;
 - (i) ar ôl is-adran 4(b) mewnosoder—
“; or
 - (c) in relation to a protected site in Wales, it includes terms implied by virtue of paragraph 5 or 9 of Chapter 2, or paragraph 5 or 6A of Chapter 4 of Part 1 of Schedule 1 to this Act.”
- (4) Yn Rhan 3 o Atodlen 1 (darpariaethau atodol)—
- (a) yn y pennawd cyn paragraff 1, ar ôl “9” mewnosoder “of Chapter 2 and (in relation to a protected site in Wales) paragraph 6A(3)(b) of Chapter 4”;
 - (b) ym mharagraff 1(1)—
 - (i) yn is-baragraff (a) ar ôl “paragraph 8(1)” mewnosoder “of Chapter 2”;
 - (ii) ar ddiwedd is-baragraff (a) hepgorer “or”;
 - (iii) yn is-baragraff (b), ar ôl “paragraph 9(1)” mewnosoder “of Chapter 2”;
 - (iv) ar ddiwedd is-baragraff (b) mewnosoder—
“, or
 - (c) a request by the occupier for the owner to approve the assignment of an agreement relating to a pitch in Wales for the purpose of paragraph 6A of Chapter 4 (see paragraph 6B).”;
 - (c) ym mharagraff 1(3) ar ôl “paragraph 8(1B)” mewnosoder “of Chapter 2 or paragraph 6B(3) of Chapter 4”;
 - (d) ym mharagraff 2(2) ar ôl “paragraph 8 or 9” mewnosoder “of Chapter 2 or paragraph 6A of Chapter 4”.

Diwygio Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) 2012

5.—(1) Mae Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) 2012(6) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

- (2) Yn rheoliad 2 (dehongli)—
- (a) yn y diffiniad o “person â buddiant” ar ddiwedd paragraff (d), hepgorer y gair “ac”;
 - (b) ar ol paragraff (d) mewnosoder—
“(dd) y person y mae'r meddiannydd yn dymuno aseinio llain iddo o dan baragraff 6A(2)(a) neu 6A(2)(b) o Bennod 4 o Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983;”
 - (c) ailrifer paragraff (dd) yn baragraff (e).
- (3) Yn rheoliad 12 (ceisiadau o dan Ddeddf 1983 mewn perthynas ag effaith niweidiol cartrefi symudol ar amwynder y safle)—
- (a) ym mharagraff (1) a (3)(a) ar ôl “Bennod 2” mewnosoder “, neu baragraff 6(1)(a) o Bennod 4;”;

- (b) ym mharagraff (3)(b) ar ôl “Bennod 2” mewnosoder “, neu baragraff 6(2) o Bennod 4,”;
- (c) ym mharagraff (6)(c) ar ôl “Bennod 2” mewnosoder “, neu baragraff 6(1)(a) o Bennod 4,”;
- (4) Yn rheoliad 21(5) (penderfynu heb wrandawriad) ar ôl “Bennod 2” mewnosoder “, neu baragraffau 4, 5, 6 neu 8 o Bennod 4,”.
- (5) Yn rheoliad 47 (ffioedd am geisiadau a wneir o dan Ddeddf 1983)—
 - (a) ym mharagraff (1) ar ôl “Bennod 2” mewnosoder “, neu baragraff 26(1)(h) o Bennod 4,”;
 - (b) ym mharagraff (2)(ch) ar ôl “Bennod 2” mewnosoder “, neu baragraffau 4, 5 neu 6(1) o Bennod 4,”;
 - (c) ym mharagraff (2)(d) ar ôl “Bennod 2” mewnosoder “, neu baragraff 8(1) o Bennod 4,”.
- (6) Yn yr Atodlen (manylion ychwanegol ynglŷn â rhai ceisiadau)—
 - (a) ym mharagraff 54 (ceisiadau sy'n ymwneud ag effaith niweidiol cartrefi symudol ar amwynder y safle)—
 - (i) yn is-baragraff (1) ar ôl “Bennod 2” mewnosoder “, neu baragraff 6(1)(a) o Bennod 4,”;
 - (ii) yn is-baragraff (2)(a) ar ôl “Bennod 2” mewnosoder “, neu baragraff 6(1) o Bennod 4,”;
 - (b) ym mharagraff 55 (ceisiadau sy'n ymwneud â therfynu gan berchennog y safle)—
 - (i) yn is-baragraff (1) a (2)(b) ar ôl “Bennod 2” mewnosoder “, neu baragraffau 4, 5 neu 6(1)(b) o Bennod 4,”;
 - (ii) yn is-baragraff (2)(c) ar ôl “Bennod 2” mewnosoder “, neu baragraff 4 o Bennod 4,”;
 - (iii) yn is-baragraff (2)(d) ar ôl “Bennod 2” mewnosoder “, neu baragraff 6(1) o Bennod 4,”;
 - (c) ym mharagraff 56 (ceisiadau sy'n ymwneud â chymeradwyo person wrth werthu neu roi cartrefi symudol)—
 - (i) yn y pennawd, ar ôl “symudol” mewnosoder “neu gymeradwyo aseiniad llain”;
 - (ii) yn is-baragraff (1) ar ôl “Bennod 2” mewnosoder “a pharagraff 6B(7) o Bennod 4”;
 - (iii) yn is-baragraff (2)(a) ar ôl “Bennod 2” mewnosoder “, neu baragraff 6B(1) o Bennod 4,”;
 - (iv) yn is-baragraff (2)(b) ar ôl “rhodd” mewnosoder “neu'r aseiniad”;
 - (d) ym mharagraff 57 (ceisiadau mewn perthynas ag adleoli cartrefi symudol) yn is-baragraff (1) a (2)(c) ar ôl “Bennod 2” mewnosoder “neu baragraff 8(1) o Bennod 4,”;
 - (e) ym mharagraff 58 (ceisiadau sy'n ymwneud â dychwelyd cartrefi symudol a adleolwyd) yn is-baragraff (1) a (2) ar ôl “Bennod 2” mewnosoder “neu baragraff 8(2) o Bennod 4,”;
 - (f) ym mharagraff 59 (ceisiadau sy'n ymwneud â'r ffi llain)—
 - (i) yn is-baragraff (1) ar ôl “Bennod 2” mewnosoder “neu baragraffau 14(b), 15(4) neu 15(8) o Bennod 4,”;
 - (ii) yn is-baragraff (2) ar ôl “Bennod 2” mewnosoder “, neu baragraff 15(2) o Bennod 4,”;
 - (g) ym mharagraff 60 (ceisiadau sy'n ymwneud â gwelliannau sydd i'w cymryd i ystyriaeth yn y ffi llain)—
 - (i) yn is-baragraff (1) ar ôl “Bennod 2” mewnosoder “, neu baragraff 16(1)(a)(iii) o Bennod 4”;
 - (ii) yn is-baragraff (2)(ch) ar ôl “Pennod 2” mewnosoder “, neu baragraff 20(f) a (g) o Bennod 4,”;

- (h) ym mharagraff 61(1) ar ôl “Bennod 2” mewnosoder “, neu baragraff 26(1)(h) o Bennod 4.”.

Diwygio Rheoliadau Cartrefi Symudol (Datganiad Ysgrifenedig) (Cymru) 2012

6.—(1) Mae'r diwygiadau a wneir gan y paragraff hwn yn gymwys i unrhyw ddatganiad ysgrifenedig a roddir ar neu ar ôl y dyddiad cychwyn.

(2) Mae'r Rheoliadau Cartrefi Symudol (Datganiadau Ysgrifenedig) (Cymru) 2012(7) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(3) Yn yr Atodlen—

(a) ym mharagraff 2 hepgorer y geiriau “yn Lloegr” yn y ddau le y maent yn ymddangos.

(b) ar ôl y pennawd i baragraff 4 (telerau ychwanegol) mewnosoder—

“Nid yw'r paragraff canlynol yn gymwys i gytundeb mewn perthynas â llain dros dro ar safle awdurdod lleol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr”;

(c) ar ôl y pennawd i baragraff 5 (yr hawl i herio'r telerau datganedig) mewnosoder—

“Nid yw'r paragraff canlynol yn gymwys i gytundeb mewn perthynas â llain dros dro ar safle awdurdod lleol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr”;

(d) ar ôl y pennawd i baragraff 9 (terfyn amser o chwe mis ar gyfer herio'r telerau) mewnosoder—

“Nid yw'r paragraff canlynol yn gymwys i gytundeb mewn perthynas â llain dros dro ar safle awdurdod lleol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr”.

Diwygio Gorchymyn Cartrefi Symudol (Comisiynau) 1983

7. Mae erthygl 2 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Comisiynau) 1983(8) wedi ei diwygio drwy fewnosod “of Chapter 2” ar ôl “paragraph 8”.

10 Gorffennaf 2013

Jeff Cuthbert
Y Gweinidog Cymunedau a Threchi Tlodi, un o
Weinidogion Cymru

(7) O.S. 2012/2675 (Cy. 289).

(8) O.S. 1983/748.

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn wedi ei wneud o dan adran 2A o Ddeddf Cartrefi Symudol 1983 ("Deddf 1983"). Mae'n diwygio Atodlen 1 i Ddeddf 1983 ac yn gwneud nifer o ddiwygiadau canlyniadol.

Wrth i adran 318 o Ddeddf Tai ac Adfywio 2008 gychwyn mae'r ddarpariaeth i eithrio safleoedd awdurdodau lleol ar gyfer sipsiwn a theithwyr o blith darpariaethau Deddf 1983 wedi ei dileu.

O'r dyddiad cychwyn bydd cytundebau mewn perthynas â safleoedd o'r fath, yn rhinwedd adran 2 o Ddeddf 1983, yn cynnwys y telerau ymhlyg sydd wedi eu cynnwys yn Atodlen 1 i'r Ddeddf honno. Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Rhan 1 o Atodlen 1 fel bod y cyfresi o delerau ymhlyg ar gyfer safleoedd awdurdodau lleol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr a fewnosodwyd gan Orchymyn Deddf Cartrefi Symudol 1983 (Diwygio Atodlen 1 a Diwygiadau Canlyniadol) (Lloegr) 2011 o ran Lloegr, wedi eu cymhwyso o ran Cymru. Mae'r telerau ymhlyg hynny yn ymwneud â lleiniau dros dro a lleiniau parhaol ar safleoedd awdurdodau lleol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r Gorchymyn (yn erthygl 2(5)(b), (d), (f) a (g)) hefyd yn nodi rhai telerau mewn perthynas â lleiniau parhaol sy'n wahanol i'r rheini sy'n gymwys yn Lloegr.

Mae'r telerau ymhlyg ar gyfer lleiniau dros dro yn fwy cyfyngedig na'r telerau ar gyfer lleiniau parhaol. Ar leiniau dros dro mae'r prif delerau ymhlyg yn ymwneud â'r canlynol—

- (a) hyd penodedig y cytundeb a therfynu'r cytundeb hwnnw yn gynnar (pan na fo'n cael ei adael i ddod i ben ar ddiwedd y cyfnod penodedig a bennir yn y cytundeb);
- (b) cyfyngu ar yr hawl i osod cartref symudol pan fo ystad neu fuddiant y perchennog, neu'r caniatâd cynllunio sy'n ymwneud â'r safle, yn atal meddiannaeth drwy gydol y cyfnod penodedig a bennir yn y cytundeb;
- (c) adennill gordaliadau a wneir gan y meddiannydd;
- (d) mwynhau'r cartref symudol yn ddiagramwydd;
- (e) hawl y perchennog i fynd i mewn i'r llain (ond nid i mewn i'r cartref symudol) o dan amgylchiadau penodedig, ac, mewn rhai achosion, heb roi hysbysiad;
- (f) y gofyniad i roi enw a chyfeiriad y perchennog i'r meddiannydd.

Mae'r telerau ymhlyg ar gyfer lleiniau parhaol a ddarperir yn rhinwedd y Gorchymyn yn debyg i'r rhai ar gyfer meddianwyr cartrefi symudol ar safleoedd cartrefi mewn parciau. Un o'r prif wahaniaethau yw'r darpariaethau sy'n ymwneud ag aseinio. Caiff meddianwyr lleiniau parhaol ar safleoedd awdurdodau lleol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, gyda chaniatâd yr awdurdod lleol, aseinio eu cytundeb i aelod o'u teulu neu gyfnewid eu cytundeb gyda meddiannydd arall.

Mae'r diwygiadau canlyniadol a wneir gan y Gorchymyn i Ddeddf 1983 yn sicrhau bod yr holl gyfeiriadau at Atodlen 1 i'r Ddeddf yn cyfeirio at y Bennod briodol yn yr Atodlen honno.

Nid yw'r Gorchymyn hwn yn effeithio ar y telerau ymhlyg o dan Ddeddf 1983 ar gyfer cytundebau mewn perthynas â chartrefi symudol ar safleoedd cartrefi mewn parciau.

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn ymwneud ag awdurdodaeth tribiwnlysoedd eiddo preswyl. Effaith yr erthygl honno yw fod awdurdodaeth y tribiwnlysoedd yn ymestyn i faterion sy'n codi o ganlyniad i'r diwygiadau a wneir i Ddeddf 1983 gan y Gorchymyn hwn.

Lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Document Generated: 2023-05-12

Statws *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*